



FFURFLEN ADRODDIAD BLYNYDDOL YR ARHOLWR ALLANOL

I'ch helpu chi i gwblhau'r Adroddiad hwn trowch at y *Ffurflen Adroddiad Blynyddol – Canllaw i Arholwyr Allanol*. Mae'r Canllaw a'r Ffurflen hon ar gael yn:

<http://www.caerdydd.ac.uk/regis/ifs/exex/rep/index.html>. Mae ffurflenni gwybodaeth am ffioedd a hawlio ar gael yn:

<http://www.caerdydd.ac.uk/regis/ifs/exex/fees/index.html> .

	I'w lenwi gan yr Arholwr Allanol:		
Enw'r Arholwr Allanol:	Gwydion Wynne		
Sefydliad Cartref / Cyflogwr yr Arholwr Allanol:	Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant		
Y Rhaglen a / neu'r Pynciau sy'n cael sylw yn yr Adroddiad hwn:	Gradd Meistr mewn Ymarfer Addysgol		
Y Flwyddyn Academaidd / Cyfnod sy'n cael sylw yn yr Adroddiad hwn:	2015/2016	Dyddiad yr Adroddiad:	5ed Chwefror 2017

Gofynnir i'r Arholwr Allanol ateb yn y manau a ddarperir. Estynnwch y manau hynny os bydd angen. **Sylwch y caiff y Ffurflen hon ei chyhoeddi ar-lein.**

Sylwadau Cyffredinol

Hoffwn gyfathrebu fy niolch diffuant i'r tîm academaidd mewnol ac allanol, partneriaid ysgolion, tiwtoriaid, mentoriaid a staff gweinyddol yn y brifysgol am sicrhau bod y llinellau cyfathrebu'n effeithiol rhwng yr amryw ran ddeiliaid unwaith yn rhagor eleni. Heb os mae effeithiolrwydd y cyfathrebu cyson rhwng y rhan ddeiliaid wedi sicrhau llwyddiant y radd ers ei sefydlu. Mae'r cyfuniad o gefnogaeth i'r modiwlau ar-lein, y mentora cyson a'r digwyddiadau dysgu yn profi i fod yn ddull effeithiol o gefnogi'r myfyrwyr yn ystod gwahanol gyfnodau o'r flwyddyn academaidd. Unwaith yn rhagor mae'r cydweithio agos a'r cyfathrebu effeithiol wedi sicrhau bod nifer helaeth o'r myfyrwyr wedi llwyddo gyda'u hastudiaethau gan gyflwyno aseiniadau graenus ac adfyfyrion mewn ystod o themâu addysg gyffredol.

1. Strwythur y Rhaglen

Mae'r rhaglen wedi ei strwythuro'n effeithiol gydag amrediad eang o fodiwlau heriol sy'n adeiladu ar brofiadau blaenorol y myfyriwr er mwyn iddynt anelu at y nod o ddatblygu'n ymarferwyr adfyfyrion yn yr ystafell ddosbarth. Credaf fod strwythurau cadarn yn eu lle gyda dilyniant naturiol i'r modiwlau o un flwyddyn academaidd i'r llall. Rwy'n ymwybodol bod y tîm, yn ei gyfanrwydd, yn rhagweithiol wrth edrych yn ôl

gan ddefnyddio adborth yr amryw bartneriaid i gynllunio'n bwrpasol ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae nifer o'r modiwlau yn cyflwyno safbwyntiau addysgol damcaniaethol cyfoes sy'n adlewyrchu gofynion y proffesiwn dysgu. Ceir nifer o asesiadau diddorol gydag ystod o ddeunyddiau digidol, cefnogaeth mentoriaid a dyddiau dysgu pwrpasol i gefnogi'r myfyrwyr i allu ymateb yn gadarnhaol i ofynion astudiaeth ar lefel 7. O'r ystadegau blynyddol ymddengys fod cyraeddiadau academaidd y myfyrwyr sy'n dewis cyflwyno yn y ddwy iaith yn gymharol gytbwys. O ganlyniad gellir nodi gyda chryn sicrwydd nad yw dewis iaith astudio'r radd yn ffafrio'r myfyrwyr mewn unrhyw ffordd.

Gallaf gadarnhau, o'r dystiolaeth a gyflwynwyd i mi, fod y tîm craidd wedi parhau i esblygu a chyflwyno'r radd yn effeithiol o'r flwyddyn flaenorol, gan wneud hynny gyda thîm cymharol fach ac yn aml o dan bwysau a chyfyngderau amser tynn. Credaf y dylai'r brifysgol fod yn ymwybodol o hynny gan werthuso'r angen am gefnogaeth bellach i'r staff, er mwyn sicrhau o fewn y strwythur bresennol bod y sefyllfa'n gynaliadwy wrth i'r niferoedd sy'n cofrestru gynyddu'n flynyddol.

2. Safonau Academaidd

Cafodd y safonau academaidd eu cynnal ar draws y rhaglen mewn perthynas â'r aseiniad a'r meini prawf o ran y ddarpariaeth ar-lein, diwrnodau dysgu a chefnogaeth y mentoriaid. Credaf fod hynny i'w ganmol gan ystyred gofynion y radd i'r myfyrwyr o ran cydbwysedd eu gwaith dyddiol ac ymgymryd ag astudiaeth academaidd ar lefel 7.

O'r dystiolaeth a gyflwynwyd i mi yn ystod y flwyddyn academaidd gallaf dystio bod safonau academaidd a chanlyniadau'r ymgeiswyr yn gyffelyb ac yn gyson o ran cyrhaeddiad fframweithiau cymwysterau addysg uwch prifysgolion yng Nghymru.

3. Y Broses Asesu

Credaf fod yr holl asesiadau yn cynnig her gyfartal i'r myfyrwyr a'u bod wedi'u gweinyddu'n deg ac yn dryloyw yn unol â pholisïau'r brifysgol. Mae'r gweithdrefnau'n gadarn a gwelir tystiolaeth o ail farcio'n gyson. Caiff gwybodaeth ei gyflwyno'n effeithiol ar rithiwr y brifysgol ac mae ystod o ddeunydd cefnogi yno i sicrhau dealltwriaeth yr ymgeisydd ynghyd â chefnogaeth barhaol gan y mentor/tiwtor. I gefnogi'r myfyrwyr ymhellach ceir taflen asesu fanwl gyda'r disgrifiadau lefel cyrhaeddiad wedi'u gosod yn glir ac yn effeithiol o ran disgwyliadau a chategorïau llwyddiant.

Cyflwynir deilliannau dysgu clir i'r modiwlau gydag ystod o ddeunyddiau cefnogi ar ffurf ffeiliau digidol, testun, tablau a ffilm. Anogir yr ymgeiswyr i ddatblygu trafodaeth broffesiynol ar y rithiwr gan gynnig cefnogaeth o ran profiad addysgol cyfredol i'w gilydd.

Yn ddiau cryfder pennaf y broses asesu yw'r adborth a dderbynia'r myfyriwr gan y tîm marcio academaidd. Mae'r ffurf yn gyson yn y ddwy iaith a cheir ymdrech ddiffuant i'w cefnogi'n academaidd ac yn broffesiynol gan nodi arsylwadau cadarnhaol a gwelliannau posibl er mwyn cryfhau'r cyflwyniad i'r dyfodol. Ers

sefydlu'r radd mae adborth ysgrifenedig y tîm academiaidd wedi bod yn gryfder i'r rhaglen ac mae hynny'n parhau i fodoli eto eleni. Credaf fod y gefnogaeth ysgrifenedig a gyflwynir yn gymorth arbennig i'r myfyrwyr ac yn arfer da i'w adlewyrchu mewn prosesau asesu ar draws y brifysgol o bosibl? Mae'r arddull ysgrifenedig a ddefnyddir wrth asesu cyrhaeddiad y myfyrwyr yn eithaf cyson ar draws sgriptiau yn y ddwy iaith ac mae hyn i'w ganmol.

I grynhoi credaf fod y dulliau asesu a gyflwynwyd yn briodol ar gyfer aseiniadau ar lefel 7. Gallaf dystio bod prosesau asesu'r brifysgol yn briodol ac yn adlewyrchu systemau gwarantu safonau a gweithdrefnau asesu sefydliadau addysg uwch prifysgolion yng Nghymru.

4. Sylwadau o Flwyddyn i Flwyddyn

Mae'r tîm academiaidd, mentoriaid, tiwtoriaid â'r tîm gweinyddol yn parhau i gydweithio'n agos er mwyn cynnig rhaglen lefel meistr o'r radd flaenaf. Ymhyfrydaf yn eu gallu i werthuso'r rhaglen yn gyson gan ymateb i adborth gan y tîm academiaidd â'r myfyrwyr. Credaf fod y brifysgol yn rhagweithiol er mwyn sicrhau tegwch i'r myfyrwyr gan gyflwyno deunydd academiaidd safonol er mwyn cyfarwyddo'r athro newydd gymhwyso i ddatblygu'n ymarferydd adfyfyriol.

5. Gweithgarwch Paratoi / Sefydlu (i Arholwyr Allanol newydd yn unig)

Ddim yn gymwys

6. Ymarfer Nodedig a'i Wella

Un o brif gryfderau'r radd ers ei sefydlu yw'r adborth ysgrifenedig a dderbynia'r ymgeisydd yn dilyn cyflwyno'r aseiniad. Mae hyn i'w ganmol gan ei fod yn rhoi arweiniad clir i'r ymgeiswyr i'r dyfodol. Eleni gwelais ychydig o amrywiaeth yn yr adborth gan y marcwyr o ran hyd a chynnwys ysgrifenedig. Hoffwn weld y brifysgol yn parhau i gynnig adborth ysgrifenedig manwl gan gysoni'r adborth rhwng y tiwtoriaid yn y ddwy iaith.

Cryfder pellach y radd yw'r deunydd cefnogi ar-lein drwy rithiwr digidol y brifysgol. Gwelais ddefnydd effeithiol o'r dechnoleg i gefnogi a hybu trafodaeth a chymuned ymchwil drwy'r amryw fformau. Er mwyn manteisio ar y fforwm a'r drafodaeth broffesiynol sy'n datblygu tybed a fuasai'r tiwtoriaid yn gallu cyfrannu'n rheolaidd at y sgwrs? Deallaf fod cyfyngderau o ran amser tiwtoriaid yn ffactor o bosibl, er hynny mae'n gyfle euraidd i sbarduno trafodaeth ymysg ein cymuned addysgol gyfredol.

I grynhoi mae'r cyfathrebu'n parhau i fod yn gryfder i'r radd. Wrth bori drwy'r deunydd print, y rhithiwr ac o'r dystiolaeth o'r diwrnodau dysgu mae'r gymuned academiaidd yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd er mwyn cyflwyno deunydd safonol a chyfredol i'r myfyrwyr. Credaf fod hynny'n herio ac yn cynnig cyfle i'r ymgeiswyr llwyddiannus i ddatblygu'n ymarferwyr adfyfyriol gan roi'r hyn a astudiwyd ar waith yn eu sefydliadau addysgol.

Llongyfarchiadau gwresog i'r tîm academiaidd, y tîm cefnogi a'r myfyrwyr ar eu llwyddiant eleni.

7. Trosolwg o'r Penodiad (i Arholwyr Allanol sy'n ymddeol, yn unig)

Ddim yn gymwys

8. Rhestr Wirio'r Adroddiad Blynyddol

Cynhwyswch sylwadau priodol yn Adrannau 1-7 uchod ar gyfer unrhyw ateb 'x'.

		✓	x	Ddim yn gymwys
Gwybodaeth am y Rhaglen/Cwrs				
8.1	A gawsoch chi ddigon o wybodaeth am gynnwys, canlyniadau dysgu ac asesiadau'r Rhaglen?	✓		
8.2	A gawsoch chi gais i roi'ch sylwadau ar unrhyw newid i'r asesu ar y Rhaglen?		x	
Papurau Cwestiwn Drafft yr Arholiadau				
8.3	A ofynnwyd i chi gymeradwyo'r holl bapurau arholiad a oedd yn cyfrannu i'r dyfarniad terfynol?			Ddim yn gymwys
8.4	A oedd natur, rhychwant a lefel y cwestiynau yn foddhaol?			Ddim yn gymwys
8.5	A wnaed trefniadau addas i ystyried eich sylwadau?			Ddim yn gymwys
Marcio'r Sgriptiau Arholiad				
8.6	A gawsoch chi ddigon o sgriptiau i allu asesu a oedd y marcio mewnol a'r dosbarthu ar y marciau yn briodol ac yn gyson?			Ddim yn gymwys
8.7	A oedd safon gyffredinol a chysondeb y marcio yn briodol?			Ddim yn gymwys
8.8	A farciwyd y sgriptiau mewn ffordd a'ch galluogai chi i weld y rhesymau dros ddyfarnu'r marciau a roddwyd?			Ddim yn gymwys
8.9	A oeddech chi'n fodlon ar safon a chysondeb y marcio gan yr arholwyr mewnol?			Ddim yn gymwys
8.10	Yn eich barn chi, a gawsoch chi gyfle i astudio croestoriad digonol o'r gwaith a wnaed gan yr ymgeiswyr ac a gyfrannodd at yr asesiad terfynol?			Ddim yn gymwys
Gwaith Cwrs ac Asesiadau Ymarferol				
8.11	A oedd y dewis o waith cwrs a/neu asesiadau ymarferol yn briodol?	✓		
8.12	A gawsoch chi weld sampl briodol o'r gwaith cwrs a/neu asesiadau ymarferol yn briodol?	✓		
8.13	A oedd dull yr asesu, a'i safon gyffredinol, yn briodol?	✓		
8.14	A gaiff y myfyrwyr ddigon o adborth ar eu gwaith asessedig?	✓		
Archwiliadau Clinigol (os ydynt yn gymwys)				
8.15	A wnaed trefniadau boddhaol i gynnal asesiadau clinigol?			Ddim yn gymwys
Samplu Gwaith				

		✓	✗	Ddim yn gymwys
8.16	A gawsoch chi ddigon o amser i ystyried samplau o'r gwaith asesedig?	✓		
Cyfarfod y Bwrdd Arholi				
8.17	A oeddech chi'n gallu dod i'r cyfarfod o'r Bwrdd Arholi?	✓		
8.18	A gafodd y Bwrdd Arholi ei gynnal yn briodol, yn unol â'r gweithdrefnau sefydledig ac mewn ffordd a oedd yn eich bodloni chi?	✓		
8.19	Mae Prifysgol Caerdydd yn cydnabod cyfraniad cynhyrchiol yr Arholwyr Allanol at y broses asesu ac yn enwedig at waith y Bwrdd Arholi. A gawsoch chi ddigon o gyfle i drafod y Rhaglen, ac unrhyw bryderon na chawsant eu datrys, gyda'r Bwrdd Arholi neu ei swyddogion?	✓		
Y Cyfarfod o'r Cyd-Fwrdd Arholi (os yw'n gymwys)				
8.20	A ddaethoch chi i Fwrdd Arholi Cyfun (h.y. un a alwyd i ystyried dyfarnu graddau cydanrhydedd)?			Ddim yn gymwys
8.21	Os daethoch, a gawsoch chi wybod am y gweithdrefnau a'r confensiynau ar gyfer dyfarnu graddau cydanrhydedd?			Ddim yn gymwys
8.22	A gynhaliwyd y Bwrdd Arholi Cyfun yn unol â'i reolau?			Ddim yn gymwys

Anfonwch yr adroddiad hwn yn ôl, yn fformat Microsoft Word os gallwch chi, drwy e-bost i:

ExternalExaminers@caerdydd.ac.uk

Dylech chi anfon eich ffurflen hawlio ffioedd a threuliau yn electronig i'r cyfeiriad e-bost uchod neu ar ffurf copi caled at:

Clive Brown, Swyddog y Gofrestrfa, Y Gofrestrfa a Gwasanaethau Academaidd, Prifysgol Caerdydd, Tŷ McKenzie, 30-36 Newport Road, Caerdydd, CF24 0DE